Grŵp Llandrillo Menai

# 2022 2023

## ADRODDIAD BLYNYDDOL
## ANNUAL REPORT

# MAE EIN SYSTEM GWNEUD CEISIADAU AR GYFER MIS MEDI WEDI AGOR

Fel y coleg mwyaf yng Nghymru, rydym yn cynnig ystod eang o gyfleoedd - o gyrsiau galwedigaethol a chyrsiau Lefel A i gyrsiau gradd a chymwysterau proffesiynol.

Am fwy o wybodaeth **ewch i'n gwefan**

# OUR APPLICATION SYSTEM IS OPEN FOR SEPTEMBER

As the largest college group in Wales, we offer a wide range of opportunities – from vocational courses and A Levels through to degrees and professional qualifications.


For more information **visit our website**

Grŵp Llandrillo Menai

# 13 SAFLE
# 13 SITES

**CROESO I GRŴP LLANDRILLO MENAI**
**WELCOME TO GRŴP LLANDRILLO MENAI**

YouTube




Allwedd
Key

- Coleg Llandrillo
- Coleg Meirion-Dwyfor
- Busnes@LlandrilloMenai
- Coleg Menai
- COPA

# CYNNWYS / CONTENTS


3 Lleoliadau'r Campysau / Aelodau'r Bwrdd
4 Rhagair
5 Ein 5 Thema Allweddol
6 Thema Strategol 1: Cyfleoedd i Ddysgwyr a Llwyddiant Dysgwyr
10 Thema Strategol 2: Bod ar flaen y gad yn y byd Modern
12 Thema Strategol 3: Ein Lle yn y Gymuned
14 Thema Strategol 4: Defnyddio Sgiliau a gwybodaeth i Ysgogi'r Economi
16 Thema Strategol 5: Ein rôl mewn Cymru Gynaliadwy
18 Edrych yn ôl
24 Penawdau Ariannol

3 Campus Locations / Board Members
4 Foreword
5 Our 5 Key Strategic Themes
6 Strategic Theme 1: Learner Opportunity and Success
10 Strategic Theme 2: Leading the way in a Modern World
12 Strategic Theme 3: Our Place in the Community
14 Strategic Theme 4: Driving the Economy through Skills and Knowledge
16 Strategic Theme 5: Our Role in a Sustainable Wales
18 In Review
24 Financial Headlines


# AELODAU'R BWRDD
# BOARD MEMBERS

**Dr Griff Jones**
(Cadeirydd / Chair)

**Alun Thomas**
(Is-gadeirydd / Vice-chair)

**Dr Roy Bichan**

**Andrea Adams**

**Andy Billcliff**

**Dafydd Evans**

**Bethan Williams**

**Dilwyn Evans**

**Dr Gwyn Jones**

**Peter Lavin**

**Chris Morgans**

**John Pierce Williams**

**Hedd Pugh**

**Marion Pryor**

**Prof. Carol Tully**

**Brian Woosnam**

**Toby G. Prosser**
(Cyfarwyddwr, Llywodraethu a Gwybodaeth / Director, Governance and Information)

**Samuel Lewis**
(Llywydd Undeb y Myfyrwyr / Student Union President)

**Will Prys Jones**
(Swyddog Addysg Uwch / Higher Education Officer)

# RHAGAIR / FOREWORD

**Mae 2022-23 wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus i'r sefydliad wrth inni gefnu ar y pandemig a dychwelyd i ddull gweithredu llawer mwy arferol. Serch hynny, rydym yn dal i wynebu rhai heriau gan fod y cyfnod Covid wedi gadael ei ôl ar flaenoriaethau a diwylliant ein cymdeithas.**

Mae'r bobl ifanc sy'n ymuno â ni'n awr wedi colli rhannau sylweddol o'u haddysg ac o ganlyniad mae angen llawer mwy o gymorth arnynt, yn addysgol ac o ran eu hiechyd meddwl. Mae'n amlwg o'r adroddiad hwn bod Grŵp Llandrillo Menai wedi ymateb yn eithriadol o dda i'r her wrth iddo barhau â'i genhadaeth o "Wella Dyfodol Pobl".

Dyma flwyddyn gyntaf Cynllun Strategol 2023-28, a chychwyn y daith o fod yn sefydliad dysgu arloesol sy'n rhoi pwyslais ar flaenoriaethau byd-eang newydd fel cynaliadwyedd. Dangosir ein pum thema strategol newydd ar y dudalen gyferbyn a gellir edrych arnynt yn fanylach trwy glicio ar y diagram.

Roedd ein perfformiad ariannol yn dda er gwaethaf gostyngiad sylweddol yng nghronfeydd cynhaliaeth Covid Llywodraeth Cymru a chodiadau heriol yn sgil chwyddiant. Aed y tu hwnt i lefel darged ein gwarged ar gyfer ariannu ein rhaglen gyfalaf a chynyddodd ein trosiant i £93m. Golyga hyn mai ni yw'r seithfed sefydliad Addysg Bellach mwyaf yn y Deyrnas Unedig. Mae lefelau'r arian parod ar ein mantolen yn gryf a bydd ein benthyciad cyfalaf tymor hir olaf wedi cael ei ad-dalu erbyn mis Gorffennaf 2024. Bydd hyn yn ein rhoi mewn sefyllfa gref i wynebu'r heriau sy'n siŵr o ddod yn ystod y blynyddoedd nesaf yn sgil gostyngiad mewn gwariant cyhoeddus. Bydd hefyd yn caniatáu i ni ddatblygu ein rhaglen gyfalaf uchelgeisiol ac yn cadarnhau ein sefyllfa fel un o sefydliadau Addysg Bellach mwyaf blaengar y Deyrnas Unedig.

Rhaid canmol ein staff am eu hymdrechion yn ystod 2022-23 i wella ymhellach ein proffil ansawdd cryf ac i roi profiadau dysgu gwerth chweil i'n myfyrwyr. Braf oedd gweld bod ein dysgwyr yn gwerthfawrogi'r ymdrech oherwydd roedd y canlyniadau am foddhad myfyrwyr yn rhagorol.

Gallwn hefyd ymfalchïo yn y dysgwyr niferus sydd wedi cael cydnabyddiaeth genedlaethol, naill ai drwy ennill cystadlaethau sgiliau neu gael eu gwobrwyo gan sefydliadau allanol annibynnol. Mae gwobrau o'r fath yn dystiolaeth bellach o'r profiadau dysgu rhagorol a gynigir gan y Grŵp ac yn helpu i danio uchelgais myfyrwyr a darpar fyfyrwyr eraill.

Perfformiodd y prentisiaethau a ddarperir gan ein gwasanaeth masnachol, Busnes@LlandrilloMenai, yn dda ar ôl llwyddo i oresgyn yr heriau economaidd a logistaidd a achoswyd gan y pandemig. Cafodd hyn ei gydnabod yn allanol gan Estyn a gynhaliodd Arolygiad llawn o'n darpariaeth prentisiaethau. Cawsom adroddiad cadarnhaol iawn oedd yn tynnu sylw penodol at y cymorth lles mae ein dysgwyr yn ei dderbyn. Yn ystod y flwyddyn ehangodd COPA®, yr is-gwmni yr ydym yn berchen arno, yng Nghymru a Lloegr gan ddangos canlyniadau ariannol cryf unwaith eto.

Mae ein rhaglen gyfalaf bum mlynedd bresennol a oedd yn werth £65m yn dirwyn i ben:

- Mae'r cyfleusterau chwaraeon gwerth £7m yn Llangefni bellach wedi agor
- Mae'r Ganolfan Beirianneg gwerth £13m yn y Rhyl wedi agor
- Disgwylir y bydd y broses o symud Campws Bangor i Barc Menai wedi cael ei chwblhau erbyn mis Mehefin 2024 ar gost o £22m

Yn ddiweddar, rydym wedi cyflwyno ein Cynllun Ystadau newydd am y naw mlynedd nesaf i Lywodraeth Cymru ac rydym yn aros am eu cymeradwyaeth ffurfiol. Prif flaenoriaeth tymor byr y Bwrdd yn y cynllun yw gwella'r cyfleusterau ar gampysau Coleg Meirion-Dwyfor yn Nolgellau a Phwllheli. Mae'r achosion busnes amlinellol ar gyfer prosiectau Bargen Twf Gogledd Cymru ar gampysau Glynllifon a Llandrillo-yn-Rhos wedi cael eu cymeradwyo, a byddwn yn mynd ymlaen yn ystod y misoedd nesaf i gyflwyno ceisiadau cynllunio.

Mae'r Grŵp wedi rhoi Fframwaith Amgylcheddol manwl ar waith sy'n ymwneud â phob agwedd ar ein gwaith. Gobaith y Bwrdd yw y bydd y Grŵp yn sefydliad SERO NET erbyn 2030. Mae dangosfwrdd i fapio ein cynnydd ar y daith bwysig hon wedi'i ddatblygu a bydd yn cael ei fonitro'n fanwl.

Gobeithio y bydd darllen yr adroddiad hwn yn rhoi tystiolaeth ein bod ar y trywydd iawn gyda'n Cynllun Strategol newydd a'n nod o "Wella Dyfodol Pobl".

**2022-23 has been a successful year for the organisation as we leave the pandemic behind and return to a far more normal mode of operating, despite still facing some pandemic legacy challenges as society's priorities and culture have changed.**

Young people joining us now have missed significant parts of their education and thus require much greater educational and mental health support. It is clear from this report that Grŵp Llandrillo Menai has responded exceptionally well to this challenge, as it continues in its mission of "Improving People's Futures."

This was the first year of operation of our Strategic Plan 2023-2028, setting out on our journey of being an innovative learning institution, and reflecting on new global priorities such as sustainability. The new five strategic themes are shown opposite and can be explored further by clicking on the diagram.

We performed well financially despite a significant reduction in Covid support funds from the Welsh Government compounded by challenging inflationary increases. Target surpluses to fund our capital programme were exceeded and turnover rose to £93m; making us the seventh largest Further Education Institution in the UK. The balance sheet shows strong cash levels and our final long term capital loan will be repaid by July 2024. This will put us in a strong position to face the known challenges of future public expenditure reductions, and allow our ambitious capital programme to progress. This will consolidate our position as one of the most progressive Further Education organisations in the UK.

Our staff must be praised for their endeavours during 2022-23 for improving our already strong quality profile and delivering a rewarding learning experience to our students. It has been pleasing to see our learners recognise this effort with excellent student satisfaction responses.

Learners have made us proud, with many winning awards on the national stage, both at skills competitions and those in events by independent external organisations. Such awards are further testimony to the excellent learning experience offered by the Grŵp and help to raise the aspirations of their peers and prospective students.

Apprenticeships delivered by our commercial arm "Busnes@ LlandrilloMenai" performed strongly, recovering from challenging economic and logistical challenges posed by the pandemic. This strength was recognised externally by a full Estyn Inspection of our apprenticeship delivery which resulted in an exceptionally positive report, highlighting in particular the wellbeing support our learners receive. Our wholly owned training subsidiary, now known as COPA®, expanded in both England and Wales during the year and again reported strong financial results.

Our current five year £65m capital programme is reaching its conclusion:

- The £7m sports facilities at Llangefni are now open
- The £13m Rhyl Engineering Centre is open and in use
- £22m Bangor Campus move to Parc Menai Business Park, is due for completion in June 2024

We have recently submitted our new 9-year Estates Plan to Welsh Government and are awaiting their formal approval. The Board's main short-term priority within the plan is to improve facilities at Coleg Meirion Dwyfor's, Dolgellau and Pwllheli campuses. North Wales Growth Deal projects for both Glynllifon and the Rhos Campus have been approved at Outline Business Case stage and will progress to planning in the coming months.

The Grŵp has introduced a detailed Environmental Framework covering all aspects of our work as the Board aspires for the organisation to be NET Zero Carbon by 2030. A dashboard to map our progress on this important journey has been developed and will be monitored closely.

We hope that in reading this report you will see that we are well on track with our new Strategic Plan and our aim of "Improving People's Futures."




**Dafydd Evans**
Prif Weithredwr
Chief Executive Officer





**Dr Griff Jones**
Cadeirydd
Chair



# EIN 5 THEMA ALLWEDDOL
# OUR 5 KEY STRATEGIC THEMES

**DARLLENWCH EIN CYNLLUN STRATEGOL LLAWN YMA**
**READ OUR FULL STRATEGIC PLAN HERE**



THEMA STRATEGOL | STRATEGIC THEME

# CYFLEOEDD I DDYSGWYR A LLWYDDIANT DYSGWYR
# LEARNER OPPORTUNITY AND SUCCESS



ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG



LEAH ROWLANDS

## Blwyddyn Arall o Ganlyniadau Rhagorol mewn Arholiadau

Llwyddodd 23% o'r dysgwyr i gael graddau A* ac A, ac roedd tri chwarter y canlyniadau'n raddau A* i C. Enillodd 25% o'r dysgwyr galwedigaeth y graddau uchaf posibl sef Rhagoriaeth neu Ragoriaeth*, a chafodd dros 500 raddau Teilyngdod, Rhagoriaeth neu Ragoriaeth*.

Derbyniwyd dysgwyr i astudio pynciau amrywiol yn y brifysgol, gan gynnwys Meddygaeth, Gwyddorau Biofeddygol, Milfeddygaeth, Seicoleg, Saesneg ac Astudiaethau Clasurol, Peirianneg, y Gyfraith a Throseddeg, Ffiseg, Nyrsio, Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff.

## Another Spectacular Year of Exam Results

23% of A Level learners achieved the top-grades of A* and A, and three quarters of results were graded A* to C. 25% of Vocational learners have achieved the highest Distinction or Distinction* grade, and over 500 achieved a Merit to Distinction* grade in their qualifications.

Learners were accepted onto a variety of subjects at University including Medicine, Biomedical Science, Veterinary Science, Psychology, English and Classical studies, Engineering, Law and Criminology, Physics, Nursing, Sports and Exercise Science.

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG



## Grŵp Llandrillo Menai'n Ennill 33 o Fedalau yng Nghystadleuaeth Sgiliau Cymru

Cynhaliwyd digwyddiad dathlu 'lloeren' ar gampws Coleg Menai yn Llangefni, lle cafodd dysgwyr eu gwobrwyo am eu llwyddiant a'u gwaith caled gan y Prif Weithredwr, Dafydd Evans a chynrychiolwyr o Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau, a gyflwynodd y canlyniadau drwy ddigwyddiad ar-lein.

Ymhlith yr enillwyr roedd un ar ddeg wedi ennill medal aur mewn categorïau oedd yn cynnwys Dylunio Graffig, Celf Gemau 3D, Ffotograffiaeth, Ynni Adnewyddadwy, Trin Gwallt, Gofal Plant, Gwaith Brics, a Gwaith Asiedydd.

Ariennir Cystadleuaeth Sgiliau Cymru gan Lywodraeth Cymru ac mae'n cynnwys cyfres o gystadlaethau sgiliau lleol sy'n cyd-fynd â chystadlaethau WorldSkills ac anghenion economi Cymru.

## Grŵp Llandrillo Menai Wins an Impressive 33 Medals at Skills Competition Wales

A 'satellite' celebration event was held at Coleg Menai's campus in Llangefni, where learners were rewarded for their success and hard work by Chief Executive Dafydd Evans and representatives from Inspiring Skills Excellence, who delivered the results via the online event.

Among the medalists were eleven gold winners, in categories including Graphic Design, 3D Game Art, Photography, Renewable Energy, Hairdressing, Child Care, Brickwork, and Joinery.

Skills Competition Wales, funded by the Welsh Government, consists of a series of local skills competitions, aligned to WorldSkills competitions and the needs of the Welsh economy.

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG


LAURA HANKS

## Cyn-fyfyriwr Safon Uwch yn Ennill Gwobr ym maes Ffiseg

Enillodd cyn-fyfyriwr o Goleg Menai wobr ym maes ffiseg ar ôl cyflwyno ei hymchwil yn y Senedd fel rhan o gystadleuaeth STEM for Britain.

Mae Laura Hanks, a ddilynodd gyrsiau Safon Uwch mewn Ffiseg, Mathemateg, Cemeg a Bioleg ar gampws y coleg ym Mangor, bellach yn gweithio fel ymchwilydd ôl-ddoethurol mewn Ffiseg ym Mhrifysgol Caerhirfryn.

Cyflwynodd Laura ei hymchwil, yn dwyn y teitl "Sensing at Your Fingertips: A Path to Spectrally Selective Infrared Detectors for You and Your Environment", mewn digwyddiad yn y Senedd yn Llundain ym mis Mawrth 2023.

## Award in Physics Awarded to Past A Level Student

A past Coleg Menai student won an award for physics after presenting her research in the Houses of Parliament as part of the STEM for Britain competition.

Laura Hanks, who studied A Levels in Physics, Maths, Chemistry and Biology at the college's Bangor campus, now works as a postdoctoral researcher in Physics, at Lancaster University.

Laura presented her research, titled "Sensing at Your Fingertips: A Path to Spectrally Selective Infrared Detectors for You and Your Environment", at the Parliamentary event held during March 2023.

## Ffoadur o Wcráin yn cael sgôr berffaith ym Mhencampwriaethau Coginio Rhyngwladol Cymru

Ym Mhencampwriaethau Coginio Rhyngwladol Cymru a gynhaliwyd yng Ngholeg Llandrillo yn 2023, cafodd Yuliia Batrak, ffoadur 17 oed o Wcráin, sgôr berffaith o gant mewn dwy gystadleuaeth sgiliau.

Cofrestrodd Yuliia ar y cwrs Gweini Bwyd a Diod Lefel 1 yng Ngholeg Llandrillo a'i thiwtor, Glenydd Hughes, a'i hanogodd i gystadlu yn y Pencampwriaethau Coginio. Enillodd Yuliia fedalau aur gan na chollodd yr un pwynt yn y categori gwneud cawl na'r categori defnyddio cyllyll i dorri ffrwythau a llysiau.

## Young Ukrainian refugee wins award for perfect score

Yuliia Batrak, a then 17-year-old refugee from Ukraine achieved a perfect 100% score in two skills competitions at the Welsh International Culinary Championships (WICC) which were held at Coleg Llandrillo in 2023.

Enrolling on a Level 1 Food & Beverage Service course at Coleg Llandrillo, Yuliia was encouraged by her tutor, Glenydd Hughes, to enter the WICC and the decision proved a masterstroke. Yuliia won gold medals after not dropping a single point in the knife skills for fruit & vegetables and soup making classes.

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG


YULIIA BATRAK

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG


DR RYAN WARD

## Cyn-fyfyriwr Cyfrifiadura o'r Coleg yn derbyn Doethuriaeth

Enillodd Ryan Ward, cyn-fyfyriwr o Goleg Llandrillo, radd PhD yn 2023 a bydd yn cael defnyddio'r teitl 'Dr'.

Llwyddodd Ryan Ward i amddiffyn ei draethawd ymchwil ac enillodd radd PhD o Brifysgol Lerpwl mewn Peirianneg Drydanol ac Electronig. Mae'n parhau i weithio i'r brifysgol fel peiriannydd prosiect mewn swydd ymchwil ôl-ddoethurol.

Gadawodd Ryan, a fagwyd ym Mochdre, Goleg Llandrillo yn 2014 ar ôl ennill tair gradd Rhagoriaeth* yn ei Ddiploma Estynedig Lefel 3 mewn Technoleg Gwybodaeth. Aeth yn ei flaen i Brifysgol Bangor gan raddio yn 2018 gyda Gradd Anrhydedd Dosbarth Cyntaf mewn Cyfrifiadureg.

Yna sicrhaodd le ar gwrs PhD pedair blynedd i ymchwilio i realiti rhithwir, synaesthesia a rhyngwynebau peiriant dynol yn adran Seicoleg Wybyddol a Pheirianneg Drydanol ac Electroneg Prifysgol Lerpwl.

## Ex-College Computing Student Awarded Doctor Title

Former Coleg Llandrillo student Ryan Ward was awarded a PhD in 2023, and will be permitted to use the title 'Dr'.

Ryan successfully defended his thesis, and was awarded a PhD in Electrical and Electronic Engineering from Liverpool University. He continues to work at the university in a post-Doctoral research position as a project engineer.

Ryan - whose family home is in Mochdre - left Coleg Llandrillo in 2014 after achieving D*D*D* in his BTEC L3 Extended Diploma in IT. He then gained a place at Bangor University, graduating top of his class in 2018 with a First-Class Honours Degree in Computer Science.

He then immediately secured a four-year PhD placement at Liverpool University, researching virtual reality, synaesthesia and human-machine interfaces in its Department of Cognitive Psychology and Electrical Engineering & Electronics.

# DATA LLWYDDIANT MYFYRIWR

# STUDENT SUCCESS DATA



**Mae 2022/23 wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus iawn i Grŵp Llandrillo Menai, gyda hyd yn oed mwy o ddysgwyr na'r llynedd yn cyflawni eu cymwysterau.**

**2022/23 has been a very successful year for Grŵp Llandrillo Menai, with more learners achieving their qualification compared to last year.**

---

Mae'r canlyniadau Addysg Bellach yn dda iawn gyda 93% o'r dysgwyr yn ennill eu prif gymwysterau galwedigaethol, sef cynnydd o 5% o gymharu â 2021/22. Llwyddodd 97% o'r dysgwyr yn eu harholiadau Safon Uwch, sef cynnydd o 2% o gymharu â 2021/22.

Further Education results are very good with 93% of learners attaining their main vocational qualifications, an increase of 5% points compared to 2021/22. 97% of learners passed their A Level qualifications, an increase of 2% points compared to 2021/22.

**93%**

---

Mae'r gyfradd gwblhau ar gyfer rhaglenni Addysg Uwch wedi cynyddu 2% i 85%, ac enillodd 95% o'r dysgwyr eu cymwysterau.

Higher Education completion rates have increased by 2% to 85%, and 95% of learners attained their qualifications.

**95%**

---

Cynyddodd cyfraddau cwblhau dysgwyr ar gyrsiau Dysgu Oedolion a Dysgu yn y Gymuned o 2% i 93% ac mae hyn yn rhagorol.

Adult and Community Learner completion rates have increased by 2% to 93% which is excellent.

**93%**

---

Cafwyd cynnydd sylweddol o 10% yn y canlyniadau Dysgu Seiliedig ar Waith, yn bennaf oherwydd gwelliannau yn y sector Iechyd a Gofal. Mae'r canlyniadau hyn yn adlewyrchu sylwadau cadarnhaol arolwg Estyn ym mis Chwefror 2023.

Work-based learning outcomes have increased significantly by 10% points due mainly to improvements in the Health & Care sector. These results reflect the positive outcomes of our Estyn Inspection in February 2023.

**+10%**

| AB - PRIF GYMWYSTERAU<br>FE MAIN QUALIFICATIONS | CWBLHAU<br>COMPLETION | CYRHAEDDIAD<br>ATTAINMENT |
|---|---|---|
| 21 / 22 Lefel A / A Level | 96% | 95% |
| 22 / 23 Lefel A / A Level | 96% | 97% |
| 21 / 22 Galwedigaethol / Vocational | 87% | 88% |
| 22 / 23 Galwedigaethol / Vocational | 87% | 93% |

* Mae canlyniadau Prif Gymwysterau Galwedigaethol AB 2021/22 wedi cael eu cyfrifo gan ddefnyddio methodoleg newydd Llywodraeth Cymru felly nid oes modd eu cymharu â chanlyniadau'r blynyddoedd blaenorol. / *2021/22 & 2022/23 FE Main Vocational results have been calculated using the new Welsh Government methodology which are not comparable to previous years results.

| POB CYMHWYSTER AU<br>HE ALL QUALIFICATIONS | CWBLHAU<br>COMPLETION | CYRHAEDDIAD<br>ATTAINMENT |
|---|---|---|
| 20 / 21 | 82% | 96% |
| 21 / 22 | 83% | 96% |
| 22 / 23 | 85% | 95% |

| DYSGU OEDOLION YN Y GYMUNED<br>ADULT COMMUNITY LEARNING | CWBLHAU<br>COMPLETION | CYRHAEDDIAD<br>ATTAINMENT |
|---|---|---|
| 20 / 21 | 94% | 95% |
| 21 / 22 | 91% | 96% |
| 22 / 23 | 93% | 95% |

Cwblhau yw canran y dysgwyr a gwblhaodd eu cymhwyster. Cyrhaeddiad yw canran y dysgwyr sy'n llwyddo i ennill eu cymhwyster. / Completion is the percentage of learners who complete their qualification. Attainment is the percentage of learners who attain their qualification.

| DYSGU SEILIEDIG AR WAITH<br>WORK-BASED LEARNING | Y CYFAN<br>ALL |
|---|---|
| 20 / 21 | 79% |
| 21 / 22 | 66%*** |
| 22 / 23 | 76% |

*** Y tarfu ar ddysgu a achoswyd gan Covid-19 wedi effeithio ar gyfraddau cyflawni.
*** Achievement rates affected by disruption to learning caused by Covid-19.

## ADBORTH RHAGOROL GAN Y DYSGWYR AM GRŴP LLANDRILLO MENAI

Yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (NSS) roedd Grŵp Llandrillo Menai ar y brig yng ngogledd Cymru ac ymhlith y tri uchaf yng Nghymru gyfan am foddhad myfyrwyr. Roedd y dysgwyr yn hynod gadarnhaol am eu cyrsiau ac yn sgorio ansawdd y Ddarpariaeth Addysg Uwch yn 83%, 13% yn uwch na chyfartaledd y sector yn y Deyrnas Unedig. Mae adborth y dysgwyr ar ansawdd y dysgu a'r addysgu a'r gefnogaeth academaidd 3% a 12% yn uwch na meincnod y DU.

Yn ein harolwg AB roedd 99% o'r dysgwyr o'r farn bod y coleg yn dda neu'n dda iawn, a 99% yn cytuno bod ansawdd y dysgu a'r addysgu'n dda neu'n dda iawn.

Mae canlyniadau'r arolwg yn hynod galonogol ac yn dangos bod GLlM yn cynnig darpariaeth dysgu ac addysgu o ansawdd uchel sy'n galluogi dysgwyr i gyflawni hyd eithaf eu gallu.

## EXCELLENT FEEDBACK FROM LEARNERS ABOUT GRŴP LLANDRILLO MENAI

The Higher Education NSS survey ranked GLLM as the best in North Wales and in the top 3 in Wales for overall satisfaction. Learners were extremely positive about their course and rated the quality of Higher Education Provision at 83%, 13% points above the UK sector average. Feedback from learners about the quality of teaching and learning and academic support are 3% points and 12% above the UK benchmark

Our Further Education survey showed that 99% of learners rated the college as good/very good, and 99% agreed that the quality of teaching and learning was good/very good.

The extremely positive survey results show that GLLM continues to deliver a high quality teaching and learning, which enables learners to achieve their potential.

THEMA STRATEGOL | STRATEGIC THEME

# BOD AR FLAEN Y GAD YN Y BYD MODERN
# LEADING THE WAY IN A MODERN WORLD

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG




## Agor Canolfan Chwaraeon gyda Chyfleusterau o'r Radd Flaenaf yn Llangefni

Yn Ionawr 2023 agorodd Grŵp Llandrillo Menai ei adeilad carbon Sero-Net cyntaf - canolfan chwaraeon newydd sydd â chyfleusterau o'r radd flaenaf - a ariannwyd mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.

Agorwyd y Ganolfan Chwaraeon newydd, sydd wedi ei lleoli ar gampws Coleg Menai yn Llangefni, gan Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg.

## State-of-the-art Sports Centre Opens at Llangefni

Grŵp Llandrillo Menai unveiled its first Net-Zero carbon building back in January of 2023 - a brand new state-of-the-art sports centre - funded in partnership with the Welsh Government.

The brand new 'Canolfan Chwaraeon' based at Coleg Menai's campus in Llangefni, was officially opened by the Welsh Government's Education and Welsh Language Minister, Jeremy Miles MS.

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG



## Grŵp Llandrillo Menai yn Ennill Contract i Ddarparu Hyfforddiant ym maes 'Ymarfer Gofal Iechyd' Ledled Cymru

Mae Addysg Gwella IechydCymru (AaGIC) wedi dyfarnu contractau i Grŵp Llandrillo Menai i gyflwyno Tystysgrif Lefel 4 mewn 'Ymarfer Gofal Iechyd' ym mhob cwr o Gymru dros y saith mlynedd nesaf.

Mae'r Dystysgrif Lefel 4 mewn Ymarfer Gofal Iechyd yn paratoi Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd ar gyfer swyddi uwch, gan eu cynorthwyo i symud ymlaen i raddau Nyrsio mewn prifysgolion.

## Grŵp Llandrillo Menai Awarded Contract to Deliver 'Healthcare Practice' Course Across Wales

Health Education Improvement Wales (HEIW) has awarded Grŵp Llandrillo Menai contracts to roll out the Level 4 Certificate in 'Healthcare Practice' across Wales over the next seven years.

The Level 4 Certificate in Healthcare Practice programme prepares Health Care Support Workers (HCSW) for advanced roles whilst facilitating seamless progression to Nursing Degrees at universities.

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG



## Gwaith Gwerth £20 Miliwn yn Dechrau ar Drawsnewid Tŷ Menai

Penododd Grŵp Llandrillo Menai gwmni Read Construction o ogledd Cymru i wneud y gwaith ar gampws newydd Coleg Menai ym Mangor. Parc Menai, Bangor fydd lleoliad y campws newydd ac anelir at ei gael yn barod i fyfyrwyr erbyn Medi 2024.

Cafodd y prosiect £14 miliwn gan raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru i symud darpariaeth bresennol Coleg Menai ym Mangor o Ffordd Ffriddoedd a safle Friars.

## Work Commences on £20 million Tŷ Menai Transformation

Grŵp Llandrillo Menai appointed North Wales-based Read Construction to carry out the works on the new Coleg Menai Bangor Campus, which will be situated on Parc Menai business park, with teaching at the campus due to take place from September 2024.

The project, backed with £14 million from the Welsh Government's Sustainable Communities for Learning Programme, will relocate Coleg Menai's current provision from the Ffriddoedd Road and Friars site.

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG

DIGITAL SCHOOLHOUSE

## Cyhoeddi mai Grŵp Llandrillo Menai yw'r sefydliad addysgol cyntaf yng Nghymru i fod yn rhan o'r cynllun 'Digital Schoolhouse'

Cynllun gan y diwydiant i gefnogi ysgolion yw Digital Schoolhouse ac fe'i noddir gan gwmnïau cyfrifiadura byd-eang fel PlayStation®, Electronic Arts, SEGA, Ubisoft ac Outright Games.

Ei fwriad pennaf yw annog pobl ifanc i ymuno â'r maes cyfrifiadureg, a bydd staff Grŵp Llandrillo Menai'n anelu at wneud hyn drwy addysgu disgyblion ysgol mewn ffordd hwyliog a diddorol gan ddefnyddio offer o'r radd flaenaf - un ai yn eu hystafelloedd dosbarth neu ar gampws y coleg. Mae'r gweithdai cyfrifiadura dyfeisgar hyn wedi'u hanelu at ysgolion ym mhob cwr o'r Deyrnas Unedig.

## Grŵp Llandrillo Menai Announced as First Digital Schoolhouse in Wales!

Digital Schoolhouse is an industry initiative to support schools and is sponsored by global computing companies including PlayStation®, Electronic Arts, SEGA, Ubisoft and Outright Games.

Its primary aim is to encourage young people into computer science, and Grŵp Llandrillo Menai staff will aim to do this by teaching school children in a fun, engaging and informative way using state-of-the-art equipment – either in the pupils' own classrooms or on a college campus. The ingenious computing workshops are aimed at schools across the length and breadth of the UK.

# EIN LLE YN Y GYMUNED
# OUR PLACE IN THE COMMUNITY

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG

## Staff Grŵp Llandrillo Menai yn Codi dros £1,500 ar gyfer Hosbis Dewi Sant

Ar 3 Gorffennaf cynhaliodd Grŵp Llandrillo Menai ei Ddiwrnod Cymunedol a Gwirfoddoli blynyddol, gan roi cyfle i staff gymryd rhan mewn digwyddiadau codi arian, ymarferion adeiladu tîm, a chyfleoedd gwirfoddoli.

## Grŵp Llandrillo Menai Staff Raise Over £1,500 for St David's Hospice

Grŵp Llandrillo Menai held its annual Community and Volunteering Day on July 3rd 2023, which gave staff the opportunity to take part in fundraising events, team building exercises, and volunteering opportunities.




ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG



## Lansio Rhaglen Fentora 'Camau Cefnogol' i Ddysgwyr y Coleg

Bydd Camau Cefnogol yn darparu cymorth cyfannol wedi'i deilwra i fynd i'r afael ag anghenion amrywiol pobl ifanc a'u helpu i groesi'r bont o'r ysgol i addysg bellach.

Bydd tîm ymroddedig o fentoriaid yn cefnogi dysgwyr gyda'u hiechyd meddwl a'u lles, eu lles actif, eu hanghenion dysgu ychwanegol, eu hymddygiad a'u presenoldeb. Byddant hefyd ar gael i'w cynorthwyo i gwblhau eu gwaith cwrs.

## 'Camau Cefnogol' Mentoring Programme Launched for College Learners

The programme will provide tailored holistic support to address the diverse needs of young people and help them to make the transition from school to further education.

A dedicated team of mentors will provide support to learners with their; mental health and wellbeing, active wellbeing, additional learning needs, behaviour, attendance and support to complete coursework.

WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO
POWERED BY LEVELLING UP
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG



## Partneriaeth rhwng Grŵp Llandrillo Menai a Chyngor Sir Ynys Môn yn Torri Tir Newydd yng Nghymru

Cytunodd Cyngor Sir Ynys Môn a Grŵp Llandrillo Menai ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth oedd yn eu galluogi i sefydlu'r bartneriaeth gyntaf o'i bath yng Nghymru. Addunedodd y ddau sefydliad i hyrwyddo a chefnogi ymhellach ddatblygiad sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth i bobl o bob oed ar Ynys Môn.

## Partnership between College Group and Anglesey Council a first for Wales

Isle of Anglesey County Council and Grŵp Llandrillo Menai agreed a key Memorandum of Understanding (MOU) - allowing them to establish the first partnership of its kind in Wales. The two organisations have pledged to further promote and support the development of skills and employment opportunities for people of all ages in Ynys Môn.

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG




## Dysgwyr Cymraeg yn addurno 'Mainc Gyfeillgarwch' i groesawu ymwelwyr i'r Eisteddfod Genedlaethol

Cafodd 'mainc gyfeillgarwch' a addurnwyd gan ddysgwyr Cymraeg i ddathlu ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol â'r ardal ei gosod mewn lleoliad canolog yng Nghricieth.

Crëwyd y fainc i gofio am Eisteddfod Bro Dwyfor yn 1975 ac i ddathlu Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd eleni.

Myfyrwyr o Goleg Meirion-Dwyfor a beintiodd y fainc, ac mae'r addurniadau arni'n cynnwys y cywydd a ddaeth yn fuddugol yn Eisteddfod 1975 sef 'Eifionydd' gan Evan Griffith Hughes. dysgu digidol mewn meysydd galwedigaethol.

## Friendship bench' decorated by Welsh learners to welcome National Eisteddfod visitors

A 'friendship bench' decorated by Welsh learners to celebrate the upcoming National Eisteddfod was given pride of place in Criccieth.

The bench was created to commemorate the 1975 Bro Dwyfor Eisteddfod and this year's Llŷn ac Eifionydd National Eisteddfod.

Students at Coleg Meirion-Dwyfor painted the bench, which features among its decorations the winning 'cywydd' (poem) from the 1975 Eisteddfod: 'Eifionydd' by Evan Griffith Hughes.

THEMA STRATEGOL | STRATEGIC THEME



# DEFNYDDIO SGILIAU A GWYBODAETH I YSGOGI'R ECONOMI DRIVING THE ECONOMY THROUGH SKILLS AND KNOWLEDGE

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG



## Grŵp Llandrillo Menai'n Ehangu ei Bresenoldeb yng Ngogledd Cymru

Bydd canolfan hyfforddi newydd ym maes prentisiaethau, busnes a chymwysterau proffesiynol yn agor cyn hir fel rhan o gynlluniau newydd a chyffrous Busnes@LlandrilloMenai, gwasanaeth gan Grŵp Llandrillo Menai sy'n darparu hyfforddiant proffesiynol, arbenigol a seiliedig ar waith i fusnesau.

## Grŵp Llandrillo Menai Expands Presence in North Wales

A new professional, apprentice and business training centre is soon to open under new and exciting plans led by Busnes@LlandrilloMenai, the business arm of Grŵp Llandrillo Menai which is responsible for delivering professional, specialist and work based training.

## Cwmni RWE yn Gwella Sgiliau Gwyrdd ei Weithlu

Bydd gweithwyr yn RWE yn cwblhau cyrsiau gradd mewn Peirianneg trwy Grŵp Llandrillo Menai.

Fel rhan o gynllun tair blynedd bydd RWE - cwmni ynni rhyngwladol sy'n arbenigo mewn ynni alltraeth - yn talu'n llawn i 23 o'i weithwyr ddilyn cwrs Tystysgrif Genedlaethol Uwch (HNC), neu Ddiploma Cenedlaethol Uwch (HND) ym maes Peirianneg.

## RWE Upskills Green Workforce

Employees at RWE will complete Engineering Degrees through Grŵp Llandrillo Menai.

As part of a three-year plan, RWE - a multinational energy company specialising in offshore wind power, will fully-fund the studies of 23 employees to obtain a Higher National Certificate (HNC), or Higher National Diploma (HND) in Engineering.

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG






## Partneriaeth Newydd i Feithrin Sgiliau STEM

Mae Grŵp Llandrillo Menai a chwmni Sbarduno yn cydweithio ar gynllun i ysbrydoli pobl ifanc i ystyried gyrfa yn y diwydiant Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM).

Bydd Sbarduno yn defnyddio labordai newydd sbon Grŵp Llandrillo Menai ar gampysau Llangefni, Pwllheli a Dolgellau i gynnig rhaglen eang o ddigwyddiadau i hyrwyddo pynciau a gyrfaoedd STEM i bobl ifanc.

## New Partnership Set to Boost STEM Skills

Grŵp Llandrillo Menai has teamed up with Sbarduno in a bid to inspire young people to consider a career within the Science, Technology, Engineering and Maths (STEM) industry.

Sbarduno will utilise Grŵp Llandrillo Menai's brand new science laboratories at its Llangefni, Pwllheli and Dolgellau campuses to deliver a broad programme of events to promote STEM engagement and careers amongst young people.

## Y Rhifau'n Gwneud Synnwyr i Brentis y Flwyddyn Grŵp Llandrillo Menai

Eleri Davies oedd enillydd gwobr Prentis y Flwyddyn 2023 Grŵp Llandrillo Menai a enillodd hefyd fedal aur am Gyfrifeg yng Nghystadleuaeth Sgiliau Cymru.

Derbyniodd Eleri, sy'n gweithio i Archwilio Cymru, y wobr mewn seremoni a gynhaliwyd yn Venue Cymru ar 8 Chwefror i ddathlu llwyddiannau dysgwyr seiliedig ar waith.

## Numbers add up for Grŵp Llandrillo Menai's Apprentice of the Year

The numbers have added up for Skills Competition Wales accounting gold medallist Eleri Davies who has won the Grŵp Llandrillo Menai's Overall Apprentice of the Year 2023 award

Eleri, who worked for Audit Wales, collected the accolade at a ceremony held at Venue Cymru on February 8th, adding it to Apprentice of the Year for Accountancy award on a night of celebration for work-based learning winners.







## Cydweithio gyda AMRC ym maes Bwyd-Amaeth

Daeth Lesley Griffiths, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd i Grŵp Llandrillo Menai i ddathlu cyhoeddi partneriaeth rhwng Grŵp Llandrillo Menai ac AMRC Cymru sydd â'r nod o drawsnewid yr economi wledig drwy ddatblygu sgiliau ac ymchwilio i dechnolegau newydd ar gyfer y sector bwyd-amaeth.

## Collaboration with AMRC in the Agri-Food Industry

Lesley Griffiths, Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd, visited Grŵp Llandrillo Menai to celebrate the publication of a partnership between the Grŵp and AMRC Cymru which aims to transform the rural economy by developing skills and researching new technologies for the agri-food sector.

THEMA STRATEGOL | STRATEGIC THEME

# EIN RÔL MEWN CYMRU GYNALIADWY
# OUR ROLE IN A SUSTAINABLE WALES

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG






## Canolfan Beirianneg Newydd yn 'Hwb Mawr' i Sgiliau Ynni Cynaliadwy yn ôl Aelod o'r Senedd dros Ogledd Cymru

Tra oedd y gwaith o godi Canolfan Beirianneg y Rhyl yn mynd rhagddo, ymwelodd Carolyn Thomas, Aelod o'r Senedd dros Ogledd Cymru, â'r safle. Meddai Carolyn, "Roedd yn wych ymweld â Choleg Llandrillo yn y Rhyl i weld y ganolfan ragoriaeth newydd ym maes peirianneg yn cael ei hadeiladu.

Bydd y cyfleuster yn rhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl leol a thu hwnt i weithio ar brosiectau adnewyddadwy yng ngogledd Cymru a ledled y byd ac i arwain y ffordd o ran technoleg newydd".

Dechreuodd yr addysgu yn y Ganolfan gwerth £12.2m ym mis Tachwedd 2023.

## MS for North Wales Hails New Engineering Centre 'Big Boost' for Sustainable Energy Skills

Carolyn Thomas, Member of the Senedd for North Wales, visited the Rhyl Engineering Centre site during its construction. Carolyn said, "It was fantastic to visit Coleg Llandrillo in Rhyl to see the fantastic new engineering centre of excellence under construction.

This facility will provide local people and beyond with the relevant skills to work on renewable projects in North Wales and across the World at the forefront of the technology".

The £12.2m Centre opened for teaching in November of 2023.

## Grŵp Llandrillo Menai yn cyflawni Lefel 5 Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd

Wedi ei archwilio yn erbyn safon uchel, Lefel 5 yw'r ardystiad uchaf gan y Ddraig Werdd y gellir ei ddyfarnu i sefydliad. Dyfernir y safon i sefydliadau a all arddangos rheolaeth amgylcheddol effeithiol ac sy'n cymryd camau i ddeall, monitro a rheoli eu heffeithiau ar yr amgylchedd.

## Grŵp Llandrillo Menai Awarded Level 5 Green Dragon Environmental Standard

Audited against a rigorous standard, Level 5 is the highest level of Green Dragon certification that can be awarded to an organisation. The standard is awarded to organisations that can demonstrate effective environmental management and that are taking action to understand, monitor and control their impacts on the environment.

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD • GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG



STAFF WELSH LANGUAGE AWARD WINNERS / ENILLWYR GWOBRAU CYMRAEG STAFF

## Grŵp Llandrillo Menai'n Dathlu ei Gyfraniad i Addysg Ddwyieithog yng Nghymru

Grŵp Llandrillo Menai yw'r darparwr addysg dwyieithog ôl-16 mwyaf yn y wlad, ac mae wedi bod yn allweddol i'r gwaith o lunio'r tirlun addysgol drwy ddatblygu a hyrwyddo amgylchedd dysgu dwyieithog. Mae mwyafrif y dysgwyr Cymraeg eu hiaith yn cwblhau eu hastudiaethau'n ddwyieithog, ac yn ystod 2022-23 darparodd y Grŵp 53,617 awr o addysg ddwyieithog.

## Grŵp Llandrillo Menai Celebrates Contributions to Bilingual Education in Wales

With a proud distinction of being the largest provider of post-16 bilingual education in the country, Grŵp Llandrillo Menai has been instrumental in shaping the educational landscape by developing and promoting a bilingual learning environment. The majority of Welsh speaking learners complete their studies bilingually, which resulted in the Grŵp delivering 53,617 hours of bilingual education during 2022-23.

## Meithrin sgiliau ar gyfer dyfodol di-garbon

Bwriad y cynllun newydd, Gwynedd Sero Net, yw gwella sgiliau crefftwyr a busnesau bach a chanolig yn y sector adeiladu, gan eu paratoi ar gyfer dyfodol sero net. Trwy ddarparu hyfforddiant mewn technoleg garbon isel, mae'r rhaglen a gynigir gan Busnes@LlandrilloMenai yng Nghanolfan CIST yn Llangefni hefyd yn sicrhau bod busnesau'n gynaliadwy ac yn gallu addasu wrth i'r galw gynyddu am arferion gwaith ac adeiladau gwyrddach.

## Developing trade skills for a carbon free future

The new scheme, 'Net Zero Gwynedd', aims to upskill trades and SMEs in the construction sector, preparing them for a net zero future. By delivering training in low carbon technology, the programme offered by Busnes@LlandrilloMenai with the Centre for Infrastructure Skills and Technology (CIST) at Llangefni is also ensuring businesses are sustainable and can adapt as demand grows for greener work practices and installations.

ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG



ERTHYGL AR-LEIN CYM | ONLINE ARTICLE ENG



## Myfyrwyr Gwasanaethau Cyhoeddus yn Helpu i Blannu Gwrychoedd

Helpodd myfyrwyr o gampws Coleg Llandrillo yn y Rhyl geidwaid gwarchodfa natur leol i glirio ardaloedd yn barod ar gyfer plannu tegeirianau ac ailadeiladu gwrychoedd er mwyn i amrywiaeth eang o fywyd gwyllt allu nythu yno.

Gwirfoddolodd myfyrwyr y cwrs Lefel 1 mewn Gwasanaethau Cyhoeddus yng ngwarchodfa natur Pwll y Brickfield, sydd wedi'i lleoli drws nesaf i gampws y coleg yn y Rhyl. Tra oeddent yno, dysgodd y myfyrwyr am bwysigrwydd lleol bioamrywiaeth, cynaliadwyedd a mannau gwyrdd.

## Public Services Students Help Strengthen Hedgerows

Students from Coleg Llandrillo, Rhyl helped rangers at a local nature reserve to clear areas ready to plant orchids and rebuild hedgerows to facilitate nest-building for a wide range of wildlife.

The Level 1 Public Services students volunteered at the Brickfield Pond nature reserve, which is located next to college's Rhyl campus. During their time there, the EPIC students learnt about the importance of local biodiversity, sustainability and green spaces.

# EDRYCH YN ÔL
# IN REVIEW



DIWRNOD CYMUNEDOL / COMMUNITY DAY




ACHIEVERS AWARD CEREMONY / SEREMONI GWOBRWYO CYFLAWNWYR



**Lawrence Wood**
Pennaeth,
Coleg Llandrillo
Principal,
Coleg Llandrillo

## COLEG LLANDRILLO

Yn gyntaf, hoffwn longyfarch ein holl ddysgwyr ar eu llwyddiant yn ystod y flwyddyn. Mae eu gwytnwch a'u penderfyniad i fanteisio i'r eithaf ar eu hamser yn y coleg yn ysbrydoliaeth. Caiff hyn ei ddangos yn glir yn ein seremoni wobrwyo lle'r ydym yn dathlu rhai o'r teithiau mwyaf arbennig sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn.

Hoffwn dynnu sylw penodol at y ffaith bod deilliannau dysgwyr Coleg Llandrillo wedi parhau'n gryf gyda'r mwyafrif helaethaf ohonynt yn cwblhau eu rhaglenni ac yn llwyddo i ennill eu cymwysterau. Rwyf yn gwybod pa mor galed y mae ein staff yn gweithio i sicrhau hyn ac rydym i gyd yn falch iawn pan fydd dysgwyr yn rhagori yn eu harholiadau neu'n cwblhau eu hasesiadau'n llwyddiannus. Mae'n dda gweld nifer y bobl sy'n dewis dysgu yn y coleg yn parhau i gynyddu bob blwyddyn.

Am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer, yn ystod yr haf cynhaliwyd diwrnod i'r gymuned ar ein campws yn Llandrillo-yn-Rhos. Daeth pobl o bob oed draw i gwrdd â'r staff a'r myfyrwyr i weld beth rydym yn ei wneud ac i rannu ein brwdfrydedd dros addysg a hyfforddiant.

Mae cysylltiadau â diwydiant yn hanfodol, ac enghraifft dda o hyn yw prosiect twristiaeth a lletygarwch lle'r ydym yn gweithio mewn partneriaeth â busnesau blaenllaw yn y sector fel rhan o Fargen Twf Gogledd Cymru. Edrychaf ymlaen at weld y prosiect yn mynd rhagddo i gefnogi sector sydd mor hanfodol i lwyddiant ein hardal.

## COLEG LLANDRILLO

Firstly, I want to congratulate all our learners on their success during the year. Their resilience and determination to make the most of their time at college is an inspiration. There is no better reflection of this than our very special award ceremony where we celebrate a selection of the remarkable journeys that have taken place throughout the year.

I want to highlight in particular that learner outcomes at Coleg Llandrillo have continued to remain strong with many learners successfully completing their programmes and successfully gaining their qualifications. I know how hard our staff work to support this achievement and we are all very proud when learners have excelled at their exams or completed their assessments successfully. It is good to see the number of people choosing to learn at the college continue to increase year on year.

We held a community day at our Rhos-on-Sea campus in the summer, the first time we have done this for many years. People of all ages came along to meet with staff and students to see what we do and to share our passion for education and training.

Industry links are essential, a good example of this is the development of a new tourism and hospitality project that is part of the North Wales Growth Deal working in partnership with leading businesses in the sector. I look forward to the project progressing to support this sector that is vital to the success of our region.

LOGO 'POTENSIAL' LOGO



EVA VOMA



**Aled Jones-Griffith**
Pennaeth,
Coleg Menai A Choleg Meirion-Dwyfor
Principal,
Coleg Menai and Coleg Meirion-Dwyfor

## COLEG MENAI

Yn ddi-os, un o'r sectorau sydd wedi dioddef fwyaf wrth geisio goresgyn ac addasu i effeithiau Covid yw Addysg Oedolion. Wrth gydnabod hynny a cheisio ymateb i'r her, rydym wedi buddsoddi'n sylweddol yn y maes, ac wedi ei ail-frandio fel Potensial. Hyderwn y bydd y ffocws hwn, ynghyd â sefydlu cyfres o ganolfannau arbennig o dan yr enw Tŷ Cyfle, yn ein galluogi i gynnig cyrsiau a rhaglenni dysgu pwrpasol a chyffrous i oedolion yn eu cymunedau lleol.

Y ddiweddaraf o'r canolfannau hyn fydd Tŷ Cyfle Bangor, fydd wedi ei lleoli ar y stryd fawr. Edrychwn ymlaen at weld Tŷ Cyfle Bangor yn agor ym mis Medi ac i weithio gyda rhanddeiliaid i ddenu oedolion i ddysgu a gwella eu sgiliau sylfaenol.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar greu campws newydd Bangor ym Mharc Menai. Mae'r campws newydd yn fuddsoddiad gwerth £22 miliwn, ac fe fydd yn gartref i'r adrannau Cyfryngau Creadigol, Gwallt a Harddwch, a Lletygarwch ynghyd â chyrsiau ESOL a Mynediad i Addysg Uwch. Bydd y campws newydd, modern yn agored i ddysgwyr o fis Medi 2024 ymlaen.

Unwaith eto eleni mae'r coleg wedi gweld nifer o'i ddysgwyr yn llwyddo yng Nghystadlaethau Sgiliau Cymru a WorldSkills UK. Un o'r rhain yw Eva Voma sydd wedi ennill ei lle yn nhîm y DU ar gyfer WorldSkills Lyon 2024. Dilynodd Eva gyrsiau Lefel 3 a HNC mewn Peirianneg yng Ngholeg Menai, cyn mynd ymlaen i wneud Prentisiaeth Gradd gyda chwmni ISC. Mae Eva bellach yn darlithio yn yr adran Beirianneg yn Llangefni.

Mae cyrsiau galwedigaethol yn rhan annatod o'r cynnig ôl-16 ac yng Ngholeg Menai, o ganlyniad i bartneriaeth rhwng y coleg a Chyngor Sir Ynys Môn, mae dysgwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn treulio wythnos gyfan ar brofiad gwaith gyda staff Gofal Cymdeithasol cymwysedig. Yn ei dro mae hyn yn galluogi'r dysgwyr gael eu rhoi ar lwybr carlam i waith, unwaith y maent wedi cwblhau eu hastudiaethau llawn amser.

## COLEG MENAI

In trying to overcome and adapt to the effects of Covid, Adult Education is undoubtedly one of the sectors that has suffered the most. We recognize this, and in an attempt to respond to the challenge have invested heavily in our provision and rebranded it as Potensial. We are confident that this focus, together with the establishment of special centres called Tŷ Cyfle, will enable us to offer purposeful and exciting courses and learning programs for adults in their local communities.

The newest of these centres will be Tŷ Cyfle Bangor, which will be located on the high street. We look forward to opening Tŷ Cyfle Bangor in September and to working with stakeholders to attract adults to learn and improve their basic skills.

Work is progressing on Bangor's new campus in Parc Menai. The new campus is a £22 million investment, and will house the Creative Media, Hair and Beauty, and Hospitality departments along with ESOL and Access to Higher Education courses. The new, modern campus will be open to learners from September 2024 onwards.

Once again this year the college have seen a number of our learners succeed in Skills Wales and WorldSkills UK competitions. They include Eva Voma who was selected to be part of the UK squad for WorldSkills Lyon 2024. Eva studied Level 3 and HNC Engineering courses at Coleg Menai, before going on to do an Apprenticeship Degree with ISC. Eva is now a lecturer in the Engineering department at Llangefni.

Vocational courses are an integral part of the post-16 offer and at Coleg Menai, as a result of a partnership between the college and the Isle of Anglesey County Council, Health and Social Care learners spend a whole week on work experience with qualified Social Care staff. This in turn enables them to be put on a career fast track, once they have completed their full-time studies.




FIRST COHORT AT PWLLHELI CAMPUS / CARFAN GYNTAF AR GAMPWS PWLLHELI



NORTH WALES MEDICAL SCHOOL VISIT / YMWELIAD YSGOL FEDDYGOL GOGLEDD CYMRU



**Aled Jones-Griffith**
Pennaeth,
Coleg Menai a Choleg Meirion-Dwyfor
Principal,
Coleg Menai and
Coleg Meirion-Dwyfor

## COLEG MEIRION-DWYFOR

Er mwyn sicrhau ein bod yn chwarae ein rhan fel gwir Goleg yn y Gymuned roedd cael presenoldeb ar faes Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd ym Moduan yn bwysig iawn i ni eleni. Cafwyd wythnos lwyddiannus iawn yn rhannu gwybodaeth am yr ystod eang y ddarpariaeth sydd ar gael i ddarpar ddysgwyr yng Ngholeg Meirion-Dwyfor. Braf hefyd oedd croesawu cyn-ddysgwyr i'r stondin ar gyfer dathlu pen-blwydd safle Penrallt, Pwllheli yn 30 oed. Yn ogystal, roedd yn gyfle i ddiolch i Bryn Hughes Parry, sydd wedi ymddeol ar ôl 30 mlynedd o wasanaeth i'r coleg. Dymunwn ymddeoliad hapus iddo.

Eleni eto trefnwyd nifer helaeth o ymweliadau preswyl er mwyn rhoi profiadau real i'r dysgwyr o weithio yn eu dewis alwedigaeth. Aeth dysgwyr yr adrannau Lletygarwch a Busnes ar drip llwyddiannus i'r Eidal i weithio yng nghyrchfan wyliau Monteactini Terme. Cafodd y dysgwyr gyfle i drwytho eu hunain mewn amrywiaeth o amgylcheddau proffesiynol o'r radd flaenaf gan gynnwys Clwb Golff Monteactini, salonau trin gwallt lleol a gwestai 5 seren. Roedd pob lleoliad yn cynnig profiad unigryw o ddeinameg gweithio yn yr Eidal ac yn cyfoethogi a chynyddu gwybodaeth ymarferol ein dysgwyr.

Yn ogystal, ymwelodd nifer o siaradwyr gwadd â'r coleg, ac yn eu plith roedd Dr Harri Pritchard, Dr Esyllt Llwyd a Ffraid Gwenllian a ddaeth i sôn am ddatblygiad Ysgol Feddygol Gogledd Cymru.

Wrth ymateb i ddymuniadau ein dysgwyr a'r pwyslais ar ffitrwydd a lles, rydym wedi buddsoddi mewn Campfa Werdd ar gampws Pwllheli er mwyn i'r dysgwyr allu ymarfer corff ar eu pen eu hunain neu dan oruchwyliaeth ein swyddogion lles.

I gloi, rydym wedi dechrau'r broses o ymgynghori gyda staff a rhanddeiliaid allweddol wrth i ni ddatblygu ein gweledigaeth gwerth £20 miliwn ar gyfer campysau Dolgellau a Phwllheli dros y pum mlynedd nesaf. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn rhoi i ddysgwyr yr ardal fynediad at adnoddau dysgu o'r radd flaenaf.

## COLEG MEIRION-DWYFOR

In order to play our part as a true Community College, having a presence at the Llŷn and Eifionydd National Eisteddfod in Boduan was very important to us this year. We had a very successful week of sharing information about the wide range of provision available for potential learners at Coleg Meirion-Dwyfor. In addition, it was good to welcome former learners to the stand to celebrate the 30th anniversary of the Penrallt site in Pwllheli. It was also an opportunity to thank Bryn Hughes Parry, who has retired after 30 years of service to the college. We wish him a very happy retirement.

Again this year we arranged a large number of residential visits in order to give our learners real experiences of working in their chosen profession. Learners from our Hospitality and Business departments went on a successful trip to work in the resort of Monteactini Terme, Italy. Learners were given the opportunity to immerse themselves in a range of first class professional environments including Monteactini Golf Club, local hairdressing salons and 5 star hotels. Each placement offered a unique insight into the dynamics of working in Italy and enriched and increased the practical knowledge of our learners.

Among the guest speakers who visited the college were Dr Harri Pritchard, Dr Esyllt Llwyd and Ffraid Gwenllian who talked about the development of the North Wales Medical School.

In response to requests by learners and the priority given to wellbeing and fitness, we have invested in a Green Gym on the Pwllheli campus to enable learners to exercise on their own or under the supervision of our wellbeing officers.

To close, we have started the process of consulting with staff and key stakeholders as we develop our £20 million vision for the Dolgellau and Pwllheli campuses over the next five years. This will ensure that learners in the area are given access to the very best learning resources.



TRACTOR AGBOT AMRC CYMRU / AMRC CYMRU'S AGBOT TRACTOR




STAFF Y GRŴP YN NHŶ GWYRDDAI / GRŴP STAFF AT TŶ GWYRDDAI



**Gwenllian Roberts**
Uwch Gyfarwyddwr - Datblygiadau Masnachol
Executive Director - Commercial Development

## BUSNES@LLANDRILLOMENAI

Yn dilyn y pandemig, roedd ein 1,200 o brentisiaid a'u cyflogwyr yn falch iawn o gael dychwelyd i normalrwydd yn 2022/23. Cynyddodd nifer ein prentisiaethau'n sylweddol yn ogystal â'n cyfraddau llwyddiant.

Yn ystod y flwyddyn cawsom ein harolygu'n ffurfiol gan Estyn ac rydym yn hynod o falch o'r adroddiad a gafwyd. Roedd yn neilltuol o braf eu bod wedi rhoi sylw arbennig i'r gofal a'r cymorth lles a gaiff y prentisiaid gan ein staff.

Mae ein perthynas â chyflogwyr strategol fel Babcock, RWE a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn allweddol i'n datblygiad. Mae'r partneriaethau hyn wedi creu cyfleoedd gwych i bobl ifanc yng ngogledd Cymru mewn swyddi uchel eu gwerth.

Yn ystod y flwyddyn hefyd llwyddodd Busnes@LlandrilloMenai i sicrhau gwerth £3m o gyllid gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin:

- Yr Academi Ddigidol Werdd – cefnogi cwmnïau yng ngogledd Cymru ar eu taith i fod yn sero net
- Tŷ Gwyrddfai – mewn partneriaeth ag ADRArydym yn darparu hyfforddiant i osodwyr systemau ynni gwyrdd
- Sgiliau Cyflogwyr Gogledd Cymru – ffynhonnell ariannu i ddarparu hyfforddiant pwrpasol i gyflogwyr

Mae'r holl brosiectau hyn ar ben ein darpariaeth draddodiadol i gyflogwyr wrth i ni fynd ati i ysgogi economi gogledd Cymru.

Mae niferoedd y dysgwyr yn parhau i gynyddu yng Ngholeg Glynllifon ac mae eu cyfraddau llwyddo yn rhagorol. Rydym wedi meithrin perthynas strategol ag AMRC wrth i ni ddatblygu i fod yn ganolbwynt gwirioneddol ar gyfer arloesedd yn yr economi wledig. Sicrhawyd cyfalaf ar gyfer codi tri adeilad sylweddol ac mae'r ceisiadau cynllunio ar eu cyfer ar fin cael eu cymeradwyo.

## BUSNES@LLANDRILLOMENAI

For our 1,200 apprentices and their employers, 2022/23 was a welcome return to normality following the pandemic with apprenticeship numbers increasing significantly and our success rates improving significantly.

During the year we were formally inspected by Estyn and received a report of which we are very proud. Particularly pleasing was their recognition of the care and wellbeing support our apprentices receive from our staff.

Key to our future development is our relationship with strategic employers such as Babcock, RWE and Betsi Cadwaladr Health Board to namebut a few. These partnerships have created excellent opportunities for young people across North Wales in high value roles.

The year also marked success for Busnes@LlandrilloMenai in securing over £3m of funding from the UK Shared Prosperity Fund:

- Green Digital Academy - supporting companies across North Wales on their journey to Net Zero Carbon
- Tŷ Gwyrddfai - in partnership with ADRA we are delivering training to the installers of green energy systems
- North Wales Employer Skills - a funding source to provide employers with bespoke training

All these projects are over and above our traditional offer to employers as we drive forward the North Wales economy.

At Coleg Glynllifon, learner numbers continue to increase with excellent success rates. We have developed a strategic understanding with AMRC as we develop to become a true hub for innovation within the Rural Economy. Funding for three significant capital builds has been secured with planning applications for their build being imminent.

## COPA

Copa yw'r enw newydd ar North Wales Training, ac mae bellach yn gwasanaethu Cymru gyfan ynghyd â gogledd-orllewin Lloegr wrth i'w strategaeth i ehangu fynd o nerth i nerth. Mae wedi cael adroddiadau cadarnhaol gan gyrff arolygu Estyn ac OFTED. Chwaraeon a Hamdden yng Nghymru, ac Adeiladu yn Lloegr oedd y ddau brif lwybr twf. Mae darparu cynllun cyflogadwyedd newydd Twf Swyddi Cymru+ wedi dwyn ffrwyth hefyd gyda'r niferoedd yn uwch na lefelau'r contract cychwynnol.

## COPA

Previously known as North Wales Training, COPA now delivers across Wales and the North West of England as its expansion strategy goes from strength to strength. It has been inspected by both Estyn and OFSTED with positive reports from both inspection bodies. Sport and Leisure in Wales, and Construction in England have been the primary growth routes. The delivery to the new Jobs Growth Wales+ employability scheme has also brought success with numbers exceeding initial contract levels.

COPA
Reach Your Peak

SAFONAU'R DDRAIG WERDD /
GREEN DRAGON ACCREDITATION



CANOLFAN CHWARAEON / SPORTS CENTRE



**Sharon Bowker**
Uwch Gyfarwyddwr - Gwasanaethau Corfforaethol
Executive Director - Corporate Services

## GWASANAETHAU CORFFORAETHOL

Cadarnhaodd y Grŵp ei sefyllfa ariannol gref yn ystod y flwyddyn, gan gynhyrchu gwarged cyffredinol o £6.7m ar lefel enillion cyn llog, treth, dibrisiant ac amorteiddio (EBITDA) o 7.2% o'i incwm. Mae'n symud tuag at sefyllfa lle y bydd yn rhydd o ddyled erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2023/24. Golyga hyn fod y Grŵp yn parhau i fod yn y dosbarth "Rhagorol" o ran ei berfformiad ariannol. Oherwydd y gwarged y mae'n ei gynhyrchu, gall y Grŵp fuddsoddi yn ei ystâd, ei adnoddau TGCh a'i weithwyr.

Roedd datblygiadau cyfalaf y Grŵp yn cynnwys cwblhau'r bloc Safon Uwch a'r Ganolfan Chwaraeon ar gampws Llangefni, a'r gwaith ar y Ganolfan Beirianneg newydd ar gampws y Rhyl a ddaeth i ben ym mis Hydref 2023. Yn ogystal, dechreuodd y gwaith ar adeilad Tŷ Menai ym Mharc Menai a fydd yn dod yn brif gampws Bangor. Rhagwelir y bydd y campws yn agor i ddysgwyr ar ddechrau blwyddyn academaidd 2024/25.

Yn ystod y flwyddyn parhaodd y Grŵp i fuddsoddi mewn adnoddau TG i'w ddysgwyr a'i staff, gyda chyllid grant gan Lywodraeth Cymru yn ei gwneud yn bosibl i brynu offer a systemau TG a oedd yn sicrhau ein bod ar y blaen o ran datblygiadau digidol. Mae'n werth nodi bod y Grŵp wedi ennill achrediad 'Cyber Essentials Plus', ac rydym yn parhau i weithio i sicrhau bod ein holl systemau'n cael eu cynnal ar y lefel ddiogelwch uchaf bosibl.

Cadwodd y Grŵp ei achrediad Lefel 5 yn safonau'r Ddraig Werdd, a datblygodd strategaeth Gynaliadwyedd yn barod i'w rhoi ar waith.

Mae buddsoddi mewn lles staff yn cael ei gydnabod fel rhywbeth sy'n gynyddol bwysig, felly mae'r Grŵp wedi datblygu Hwb Lles ar-lein i staff sy'n cynnig nifer cynyddol o wasanaethau cymorth. Dechreuwyd hefyd ar raglen i gyflwyno cyfleusterau lles ar y campysau i staff.

## CORPORATE SERVICES

The Grŵp consolidated its strong financial position during the year, producing an overall Grŵp surplus of £6.7m at EBITDA level (7.2% of income) and moving towards a position where it will be debt free by the end of the 2023/24 financial year. This maintains the Grŵp's "Outstanding" Financial Performance Measure. The surpluses generated allow the Grŵp to invest in its estate, ICT and employees.

Capital developments across the Grŵp included completion of the A-level block and 'Canolfan Chwaraeon' on the Llangefni campus, and work proceeded on the new Engineering centre on the Rhyl campus - which subsequently completed in October 2023. Work also began on the Tŷ Menai building on Parc Menai in Bangor which will become the main Bangor campus. The campus is anticipated to open to learners at the beginning of the 2024/25 academic year.

The Grŵp continued to invest in IT resources for both staff and learners during the year, with grant funding from Welsh Government enabling the purchase of equipment and systems to ensure we keep pace with digital developments. Of particular note, the Grŵp achieved 'Cyber Essentials Plus' accreditation, and we continue to work to ensure that all of our systems are maintained at the highest level of security.

The Grŵp has maintained its Green Dragon Level 5 Environmental accreditation, and has developed a Sustainability strategy ready for rollout.

Investment in staff wellbeing has been recognised as increasingly important, so the Grŵp has developed an online Staff Wellbeing hub with a growing number of supported benefits available. A programme of rollout of staff welfare facilities on campuses has also been embarked upon.



LANSIO LLYFRGELL+ / LIBRARY+ LAUNCH


CEFNOGAETH I FYFYRWYR / STUDENT SUPPORT



**James Nelson**
Uwch Gyfarwyddwr - Gwasanaethau Academaidd
Executive Director - Academic Services

## GWASANAETHAU ACADEMAIDD

Parhaodd y Gwasanaethau Academaidd i roi cefnogaeth o'r radd flaenaf i'r staff a'r dysgwyr, yn enwedig yn ystod yr Arolygiad llwyddiannus a gafwyd ym mis Chwefror 2023 o'r ddarpariaeth Dysgu Seiliedig ar Waith.

Rydym wedi parhau i fuddsoddi yn Llyfrgell a Mwy, ac mae Parc Menai, Pwllheli a'r Rhyl wedi'u trawsnewid yn amgylcheddau bywiog a modern sy'n cael eu defnyddio gan y dysgwyr i gael cymorth o ansawdd uchel er mwyn gallu manteisio i'r eithaf ar eu profiadau yn y coleg. Rhoddodd Llyfrgell a Mwy fenthyg 1350 o Chromebooks i ddysgwyr nad oedd ganddynt ddyfais ddigidol er mwyn iddynt allu parhau â'u hastudiaethau yn eu cartrefi.

Mae Sgiliaith ar y blaen wrth ddatblygu hyfforddiant ym maes y Gymraeg a dwyieithrwydd i staff y sector addysg ôl-16 yng Nghymru. Mae 800 o staff colegau a darparwyr hyfforddiant o bob cwr o Gymru wedi elwa ar y gefnogaeth unigryw y maent yn ei chynnig i'r sector, ac yn ei defnyddio i ddatblygu eu gallu i addysgu dysgwyr yn ddwyieithog.

Mewn ymateb i'r argyfwng costau byw, cyflwynodd y Grŵp gynnig Brecwast am Ddim a oedd yn boblogaidd iawn ac rydym wedi gweini tua 6000 brecwast y mis. Ar ben hyn, mae ein lwfans tuag at bryd bwyd dyddiol i ddysgwyr cymwys wedi talu am 8000 pryd bwyd y mis. Mae ein staff ymroddedig a phroffesiynol wedi darparu cymorth wedi'i dargedu i ddysgwyr drwy gyfrwng 9000 o sesiynau cymorth. Yn sgil y sesiynau pwrpasol hyn mae dysgwyr wedi gallu cael cefnogaeth gyda'u hiechyd meddwl, eu hanghenion dysgu ychwanegol, eu llesiant, eu dysgu a'u gofynion cyllidol. Yn ogystal, rydym wedi derbyn £1.8 miliwn i ariannu ein prosiect Camau Cefnogol a fydd yn gwella ymhellach y cymorth a fydd ar gael i ddysgwyr yn 23/24.

Mae'r tîm arholiadau hefyd wedi ymateb yn effeithiol iawn i'r twf o 8% mewn arholiadau a'r nifer cynyddol o ddysgwyr sydd angen trefniadau a chefnogaeth arbennig gyda'u harholiadau, e.e. ystafell ar wahân, darllenydd ac ati.

## ACADEMIC SERVICES

Academic Services has continued to provide high quality outstanding support to staff and learners and particularly during the successful Work Based Learning Inspection in February 2023.

We have continued to invest in Library Plus, and Parc Menai, Pwllheli and Rhyl have been transformed into modern vibrant environments which learners use to receive high quality support and get the most out of their college experience. Library Plus have loaned 1350 Chromebooks to learners who did not have access to a digital device so that they could continue with their studies at home.

Sgiliaith is leading the way in developing Bilingual Welsh Language staff training in post 16 education in Wales. 800 staff from Colleges and Training providers across Wales have benefitted from our unique sector leading support, and are using this to develop their ability to teach learners bilingually.

In response to the cost of living crises the Grwp introduced a free breakfast offer which was very popular and we have served approximately 6000 breakfasts per month. In addition to this we also provided a daily meal allowance to eligible learners which has funded 8000 meals per month. Our dedicated and professional staff have delivered targetted support to learners in over 9000 support sessions. The highly personalised sessions enabled learners to receive support with their mental health, additional learning needs, wellbeing, study support and finance. We have also been awarded £1.8 million to fund our Camau Cefnogol project which will further enhance the support we offer to learners in 23/24.

The examinations team have also been very responsive to the 8% growth in exams and the increasing number of learners who require special arrangements and support for their exam e.g. separate room, reader etc.

# PENAWDAU ARIANNOL
# FINANCIAL HEADLINES

**Yn strategaeth ariannol y Grŵp, ceir nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol (DPA) a fwriadwyd i sicrhau bod y Grŵp yn parhau'n sefydliad sy'n sefydlog yn ariannol ac sy'n gallu buddsoddi yn ei adnoddau er mwyn darparu'r amgylchedd dysgu gorau posibl i'w ddysgwyr.**

**The Grŵp's financial strategy outlines a number of specified KPIs aimed at ensuring the Grŵp remains a financially stable organisation, able to invest in its resources to provide the best possible learning environment for its learners.**

| Targed DPA<br>KPI target | 2023 Gwir Ganlyniad<br>2023 Actual Result | 2022 Gwir Ganlyniad<br>2022 Actual Result | Asesiad o'r Cyflwr Ariannol<br>Financial Health check Assessment |
|---|---|---|---|
| EBITDA > 4% incwm<br>EBITDA > 4% income | Coleg/College 7.0%<br>Grŵp 7.2% | Coleg/College 10.2%<br>Grŵp 10.4% | ● |
| Cymhareb asedau cyfredol net > 2<br>Net current asset ratio > 2 | Coleg/College 2.71<br>Grŵp 2.77 | Coleg/College 4.35<br>Grŵp 4.41 | ● |
| Benthyca <15% o'r incwm<br>Borrowing <15% of income | Coleg/College 0.1%<br>Grŵp 0.1% | Coleg/College 0.3%<br>Grŵp 0.3% | ● |


Mae'r DPA yn y tabl uchod yn dangos bod y Grŵp yn parhau i fod yn y categori "rhagorol" o ran ei gyflwr ariannol ac wedi cael blwyddyn lwyddiannus arall.


Yn gyffredinol, mae'r dangosyddion wedi gostwng ers y llynedd oherwydd gwerth is y grantiau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru.

The KPIs in the table above show the Grŵp has maintained its "outstanding" Financial Health check measure with another successful year.

In general, indicators have reduced from last year due to lower value of grants received from Welsh Government.

# INCWM A GWARIANT
# INCOME & EXPENDITURE




## INCWM
## INCOME

| 2023 (£,000) | 2022 (£,000) | | |
|---|---|---|---|
| £47,876 | £45,576 | | Grant rheolaidd yr AdAS<br>DfES recurrent grant |
| £12,588 | £12,871 | | Grant Dysgu Seiliedig ar Waith<br>Work-based learning grant |
| £11,172 | £14,555 | | Incwm o grantiau eraill yr AdAS<br>Other DfES grant income |
| £2,972 | £3,679 | | Ffioedd dysgu<br>Tuition fees |
| £983 | £861 | | Grant rheolaidd CCAUC<br>HEFCW recurrent grant |
| £1,131 | £962 | | Incwm breinio<br>Franchise income |
| £3,979 | £2,824 | | Cyllid Ewropeaidd<br>European funding |
| £1,219 | £867 | | Incwm arlwyo<br>Catering income |
| £900 | £734 | | Incwm o weithgareddau ffermio<br>Farming activities income |
| £3,050 | £1,792 | | Incwm o grantiau eraill<br>Other grant income |
| £3,153 | £3,053 | | Incwm arall<br>Other income |
| **£89,023** | **£87,774** | | Incwm EBITDA<br>EBITDA income |
| £3,805 | £2,776 | | Incwm nad yw'n EBITDA<br>Non EBITDA income |
| **£92,828** | **£90,550** | | Cyfanswm incwm y Grŵp<br>Total Grŵp income |

## GWARIANT
## EXPENDITURE

| 2023 (£,000) | 2022 (£,000) | | |
|---|---|---|---|
| £59,206 | £55,176 | | Costau staffio<br>Staff costs |
| £8,512 | £9,233 | | Costau addysgu nad ydynt yn ymwneud â thâl<br>Teaching non-pay costs |
| £5,322 | £4,713 | | Costau gweinyddu a chostau cyffredinol<br>Administration and general costs |
| £7,037 | £6,903 | | Costau mewn perthynas ag adeiladau<br>Premises costs |
| £2,252 | £2,331 | | Treuliau eraill<br>Other expenses |
| **£82,329** | **£78,356** | | Costau EBITDA Grŵp<br>Grŵp EBITDA costs |
| £7,748 | £11,765 | | Costau nad ydynt yn EBITDA<br>Non EBITDA costs |
| **£90,077** | **£90,121** | | Cyfanswm Costau Grŵp<br>**Total Grŵp Costs** |

## EBITDA (Enillion cyn Llog, Treth, Dibrisiad ac Amorteiddio)
## EBITDA (Earnings before Interest, Taxes, Depreciation and Amortisation)

| 2023 | 2022 | |
|---|---|---|
| £6,694 | £9,418 | Grŵp EBITDA |
| 7.2% | 10.4% | EBITDA fel % o incwm<br>EBITDA as % of income |
| £2,751 | £979 | Gwarged Grŵp<br>Grŵp Surplus |

Coleg Llandrillo
Llandrillo-yn-Rhos
Conwy LL28 4HZ
01492 546 666

Coleg Meirion-Dwyfor
Dolgellau
Gwynedd LL40 2SW
01341 422 827

Coleg Menai
Bangor
Gwynedd LL57 2TP
01248 370 125

Busnes@LlandrilloMenai
Abergele
Conwy LL22 7HT
08445 460 460

COPA, Tŷ COPA
Argyll Road, Llandudno
Conwy LL30 1DF
01492 543 431